





1. Adeiladwyd Capel Annibynnol Bethania (gweler y llun ar y dudalen flaen) yn 1905 ar gyrion tir comin y mynydd. Mae'r comin yn gynefin pwysig i adar sy'n nythu ar y ddaear. Gwelir Corheddyd y Waun, y Giach, a'r Ehedydd yma, a Gylfinirod a Phibyddion Coesgoch yn ystod yr haf.

2. Datblygwyd Glofa Rhosaman yng nghanol y 19eg ganrif. Fe wnaeth dyfodiad Rheilffordd Cwm Tawe yn 1864 oresgyn y broblem o gludo'r glo, a chynyddodd y lofa mewn maint. Yn 1924, lladdwyd saith o ddynion mewn ffrwydrad yma. Saif cofeb iddynt yn y cae chwarae sy'n sefyll ar hen safle'r lofa.

3. Mae fferm Gors-helyg yn ymddangos ar fapiau dechrau'r 19eg ganrif. Roedd yr hen gors yn un o'r nodweddion a ddefnyddid i nodi ffin maenor ganoloesol Caegurwen.

4. Yn y 19eg ganrif, roedd fferm Bryn-brain yn gartref i John Jones, sef gŵr busnes a oedd yn berchen ar lofa fechan ym Mlaengurwen yn 1802. Yn 1819, bu'n goruchwylio'r gwaith o adeiladu heol newydd dros y Mynydd Du o Frynman i Langadog. Efe oedd yn gyfrifol am adeiladu'r ffordd gyntaf rhwng Cwmllynfell a Brynman.

5. Mae pedair odyn galch yn 'Henllys Vale' sy'n dyddio o'r 19eg ganrif. Roedd tramffordd yn arwain i Gefn Carn Fadog, i'r gogledd, lle roedd calchfaen yn cael ei gloddio. Agorodd Glofa Henllys Vale yn 1898 dan yriant ager-beiriant, a gellir gweld ei simdde yno o hyd. Yn 1904 roedd 104 o bobl yn cael eu cyflogi yno, ond wnaeth y cwmi dirywio yn gyflym.

Gwerthwyd y lofa mewn arwerthiant yn 1906 a bu i'r gwaith ailddechrau yno dan yr enw 'New Henllys Anthracite Company Ltd', ond fe'i caewyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd prinder gweithwyr.

6. Mae Dol-gam yn un o'r ffermydd cynharaf ar y tir comin. Ganwyd y bardd Watcyn Wyn yma yn 1844, pan oedd ei fam yn ymweld â'i theulu yma.

7. Yng nghanol y 19eg ganrif, fe wnaeth Cwmi Rheilffordd Cwm Tawe ymestyn y rheilffordd ar hyd Cwm Tawe er mwyn cludo'r glo o byllau lleol a gwasanaethu diwydiannau eraill a oedd ar gynydd. Erbyn 1864 roedd y rheilffordd wedi cael ei hymestyn i Frynman at ddioben cludiant, ac erbyn 1868 roedd ar agor i deithwyr hefyd. Agorodd Arhosfa Glofa Gwauncaegurwen yn 1896, ac fe ail-agorodd yn 1909 fel gorsaf reilffordd Cwmllynfell. Daeth y gwasanaeth i deithwyr i ben yn 1950, ddwy flynedd ar ôl gwladoli'r diwydiant.

8. Mae Tomen Owen, sy'n dwmpath mawr o dywod naturiol, i'w gweld ym mhentref Ystrad Owen. Credir iddo gael ffurfio wrth i'r rhewlifoedd gilio ar ddiwedd Oes yr Iâ diwethaf.

1. Bethania Independent chapel (see cover photograph) was built in 1905 on the edge of the mountain common. The common is an important habitat for ground nesting birds. Meadow Pipit, Snipe and Skylark can be seen all year round while Curlew and Redshank are summer visitors.

2. Rhosaman Colliery developed in the mid-19th century. The arrival of the Swansea Vale Railway in 1864 overcame the problem of transporting the coal, and the mine expanded. In 1924, an explosion here killed seven men. A memorial to them stands in the recreation ground that now stands on the old mine site.

3. Gors-helyg farm is shown on early 19th century maps. Gors-helyg (Willow bog) was named as one of the landmarks used to indicate the boundary of the medieval manor of Caegurwen.

4. In the 19th century Bryn-brain farmstead was home to John Jones, an entrepreneur who owned a small colliery at Blaengurwen in 1802. In 1819 he supervised the building of a new road over the Black Mountain from Brynman to Llangadog. He also built the first road between Cwmllynfell and Brynman.

5. At Henllys Vale a bank of four massive lime-kilns also dates to the 19th century. A tramway led northwards up to Cefn Carn Fadog from where the limestone was quarried. Henllys Vale Colliery opened in 1898, the chimney of which still remains. In 1904, 104 men were employed here, but the company rapidly declined. In 1906 it was offered at auction and restarted as the New Henllys Anthracite Company Ltd but closed during the First World War due to a lack of manpower.

6. Dol-gam is one of the earliest farmsteads on the common. In 1844, the poet Watcyn Wyn was born whilst his mother was visiting her family here.

7. In the mid-19th century, the Swansea Vale Railway Company extended the line up the Swansea Valley to link to local collieries and other rapidly developing industries. By 1864 the line had been extended to Brynman for freight, and by 1868 passengers could use the line too. The Gwauncaegurwen Colliery halt opened in 1896, and reopened as Cwmllynfell railway station in 1909. The last passenger service was withdrawn in 1950, two years after nationalisation.

8. A large natural mound of sand known as Tomen Owen can be seen in Ystrad Owen village. It was probably left by glaciers at the end of the last Ice Age.



1 Milltir / Mile  
1 Cilomedr / Kilometre

Llwybrau a Argymhellir Recommended Route  
Hawliau Tramwy Eraill Other Rights of Way  
Llwybrau Aman a Llwchwr Amman and Loughor Trail

